

# Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

Chwefror 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio](http://www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddArchwilio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood**

Chwefror 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Neil Hamilton AC**  
UKIP Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Vikki Howells AC**  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Rhianon Passmore AC**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Adam Price AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Jenny Rathbone AC**  
Llafur Cymru  
Canol Caerdydd

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Jack Sargeant AC**  
Llafur Cymru  
Alun a Glannau Dyfrdwy

## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>6</b>
<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
<b>1. Gwersi ehangach a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru.....</b>	<b>10</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	11
<b>2. Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.....</b>	<b>12</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	16
<b>3. Gwrthdaro buddiannau.....</b>	<b>17</b>
Argymhellion.....	19
<b>4. Refeniw amcangyfrifedig.....</b>	<b>21</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	24
<b>5. Trefniant nawdd.....</b>	<b>25</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	26
<b>6. Natur yr eiddo.....</b>	<b>27</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	30
<b>7. Gwerth y gwaith a wnaed gan Pinewood.....</b>	<b>31</b>
Penawdau'r Telerau.....	32
Casgliadau ac argymhellion.....	34
<b>8. Adeilad rhestredig.....</b>	<b>36</b>
Casgliadau.....	37
<b>9. Tryloywder.....</b>	<b>39</b>
Casgliadau.....	42

---



## Rhagair y Cadeirydd

Mae Pinewood yn stiwdio ffilm Brydeinig fyd-enwog sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n gysylltiedig â rhai o'r masnachfreintiau ffilm mwyaf enwog mewn hanes. Arweiniodd y cyhoeddiad ynghylch cyrhaeddiad Pinewood yng Nghaerdydd yn 2014 at gyffro a disgwyliad y gallai'r brand ychwanegu £90 miliwn amcangyfrifedig at economi Cymru gan roi hwb i ddiwydiant ffilm Cymru ar lefel ryngwladol.

Roedd cyrhaeddiad Pinewood yn cynnig cyfle a gobaith ond dim ond pedair blynedd yn ddiweddarach penderfynodd Llywodraeth Cymru ddod â'r cytundeb prydlesu a'r cytundeb cydweithredol a sefydlwyd gyda'r cwmni i ben. Daethpwyd â'r stiwdio a'r gwaith o redeg y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

Cawsom ein synnu bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gontract nad oedd yn eglur o ran trefniadau gweithredu, a chytundeb cydweithredol nad oedd yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob partner yn eglur. Cawsom ein synnu hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis prynu safle a oedd yn cynnwys tri ased gwahanol ac anarferol iawn, yn costio £6 miliwn ac wedi methu â chomisiynu arolwg strwythurol llawn ymlaen llaw. Roedd hefyd y cyngor anghywir, anghyflawn ac o ansawdd gwael a ddarparwyd i Weinidogion Cymru ar sawl achlysur, gan bwysleisio eto'r pwysigrwydd a'r angen am gyngor swyddogol amserol, cywir ac o ansawdd uchel i Weinidogion, rhywbeth sydd mor hanfodol i gefnogi penderfyniadau cadarn a gwybodus y Gweinidogion.

Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod buddsoddiad masnachol yn y diwydiant ffilm a theledu yn ansicr ac y gall gymryd sawl blwyddyn i wireddu'r manteision economaidd. Felly, nid ydym am fynegi barn ar p'un a oedd y fargen gyda Pinewood wedi cynrychioli gwerth am arian. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng buddsoddi arian cyhoeddus i wneud y mwyaf o fuddsoddiad yng Nghymru a'r perygl yn sgil hyn, ond rhaid rheoli'r risgiau hyn ac mae angen i'r trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau o'u hamgylch fod yn gadarn ac yn drylwyr iawn.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dysgu o'i phrofiadau yn y gorffennol ac wrth ymateb i'r adroddiad hwn rhaid iddi ddangos yn ddiamod, unwaith ac am byth, bod gwersi wedi'u dysgu o ran ei dull o ariannu busnesau preifat.

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

---

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gyda'r Pwyllgor, fanylion am sut y mae'r gwahanol wersi a ddysgwyd o'i phrofiadau wrth ymdrin â Pinewood wedi'u gweithredu, eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'u rhannu ar draws Llywodraeth Cymru.....Tudalen 11

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau ar ddiwedd blwyddyn galendr 2019..... Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Mae'n amlwg inni na roddodd y swyddogion ddigon o sylw ar y cychwyn i'r gwrthdaro buddiannau a oedd yn rhan annatod o berthynas gytundebol Llywodraeth Cymru â Pinewood. Dim ond yn ddiweddarach, pan ddaeth y gwrthdaro hwn rhwng cyfraniad Pinewood yn y Gylideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'i gyfraniad ehangach mewn gwaith cynhyrchu yng Nghymru yn gynyddol amlwg, y cymerwyd camau cywiro. Gallai risg yr achos hwn o wrthdaro buddiannau yn digwydd fod wedi'i nodi o'r cychwyn cyntaf pan ddechreuodd Llywodraeth Cymru gydweithio â Pinewood, ac yn wir, dylai hyn fod wedi digwydd. Rydym o'r farn bod dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau yn unig, i liniaru ei risgiau, wedi bod yn annigonol..... Tudalen 19

**Argymhelliad 4.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd wedyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru i gynghori'r Gweinidog i ailystyried natur y cytundeb yn dilyn pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau yn cael eu mynegi. Fodd bynnag, rydym yn bryderus, fel yr adroddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn y dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, na roddwyd cyngor penodol i'r Gweinidog ar wrthdaro buddiannau cyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gytundeb â Pinewood..... Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'n drylwyr ei threfniadau ar gyfer nodi ac asesu achosion posibl o wrthdaro buddiannau a bod y rhain, ynghyd â chynigion lliniaru cadarn, yn cael eu gwneud yn gwbl eglur mewn cyngor a ddarperir i Weinidogion cyn ymrwymo i gytundebau â busnes yn y sector preifat. ....Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell, ar y cyd ag argymhelliad 2, bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad ariannol a rhagamcanion incwm ym mis Rhagfyr 2019..... Tudalen 24



**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut y mae wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod goblygiadau TAW yn cael eu hystyried yn llawn gan swyddogion mewn modd prydlon, gan gynnwys darparu cymorth arbenigol lle bo angen, a bod cyngor cyflawn a chywir yn cael ei roi i Weinidogion Cymru ar oblygiadau TAW yr holl gynigion a gyflwynir i'w cymeradwyo.....Tudalen 26

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cael arolygon, nid dim ond prisiau, ar bob caffaeliad eiddo sy'n uwch na £1 miliwn.  
.....Tudalen 30

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod yr holl drafodaethau yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cymru a busnes y sector preifat yn cynnwys asesiad trwyadl o gyfrifoldebau pob ochr ac y nodir y rhain yn benodol ym mhob contract.  
.....Tudalen 35

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ffeithiau'n unig ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood ar 12 Mehefin 2018. Roedd hyn yn dilyn diddordeb yn y mater gan nifer o Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys Aelodau'r Pwyllgor hwn. Roedd rhai Aelodau'r Cynulliad wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am natur y berthynas ond wedi methu â chael y datgeliad llawn yr oeddent am ei gael.
2. Yn 2014, prynodd Llywodraeth Cymru safle'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg ger Caerdydd, i'w ddatblygu fel stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood Shepperton Limited. Yn fuan wedyn, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i "Gytundeb Cydweithredol" gyda dau is-gwmni newydd Pinewood. Roedd y cytundeb yn golygu bod Llywodraeth Cymru:

  - yn rhoi stiwdio Gwynllŵg ar brydles i Pinewood;
  - yn sefydlu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn (lle byddai Pinewood yn rheoli ac yn dod o hyd i gynyrchiadau addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru); ac
  - yn noddi Pinewood i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r gyllideb fuddsoddi.
3. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac nid oedd Pinewood Studios Wales yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes gweithredol heb gefnogaeth Pinewood Group Limited.
4. Ym mis Hydref 2017, daeth Llywodraeth Cymru â'i Chytundeb Prydlesu a'i Chytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben, a rhoddwyd gorau i bob cysylltiad rhwng Pinewood a'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i "Gytundeb Gwasanaethau Rheoli" newydd ar 1 Tachwedd 2017 ar gyfer gweithredu cyfleusterau stiwdio Gwynllŵg.
5. Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar yr adeg pan oedd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn nesáu at ddiwedd ei ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru. Mae perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood yn rhan allweddol o'i chefnogaeth i'r diwydiant hwn, ac ystyriwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o ymchwiliad ehangach y Pwyllgor hwnnw.

**6.** Ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu atom ar 28 Medi 2018<sup>1</sup> yn nodi meysydd yr oedd y Pwyllgor yn teimlo eu bod yn haeddu sylw pellach gennym. Cawsom dystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 5 Tachwedd 2018 gan ddefnyddio'r cyfle i:

- ystyried y materion allweddol a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mehefin 2018 ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood; ac
- archwilio'r pryderon penodol a fynegwyd am y berthynas hon gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

**7.** Mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi'u nodi yn y penodau dilynol.

---

<sup>1</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

---

## 1. Gwersi ehangach a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru

- 8.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at “nifer o wersi a ddysgwyd yn y Tîm Sector ac ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd” o’i phrofiad gyda Pinewood.<sup>2</sup> Gofynnwyd am eglurhad o’r gwersi a ddysgwyd o fargen Pinewood, a sut y byddai unrhyw newidiadau neu welliannau’n cael eu gweithredu o ganlyniad i hyn.
- 9.** Mae’r gwaith craffu gan Bwyllgorau’r Cynulliad ar gydweithrediad Llywodraeth Cymru â Pinewood wedi tynnu sylw at feysydd lle gellid dysgu gwersi. Er enghraifft, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gosod amcanion cliriach ynghylch y cydbwysedd a ddymunir rhwng enillion ariannol ac economaidd. Mae hyn yn golygu ystyried yr enillion ariannol uniongyrchol ar gyfer Llywodraeth Cymru ei hun o gynnig Pinewood yn ogystal â’r gwerth economaidd ehangach a gynhrychir i Gymru, gan gynnwys y swm o arian a gaiff ei wario gyda chwmnïau Cymru ac i gefnogi cynrychiadau Cymru.
- 10.** Mae hefyd angen mwy o ffocws yn y dyfodol ar dair elfen y fargen wreiddiol gyda Pinewood o ran nawdd, gweithrediad y stiwdio a darparu’r Gyllideb Buddsoddiad yn y Cyfryngau (y gronfa). Wrth symud ymlaen, byddai angen i unrhyw drefniadau gweithredu tebyg wneud y rheini’n glir ac yn benodol, gan fod diffyg eglurder mewn perthynas â gwahanol rannau’r cytundeb cydweithredol a beth yr oedd ac nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo Pinewood iddo.<sup>3</sup>
- 11.** Wrth ddiffinio sut y cafwyd y dryswch hwnnw, clywsom y cafodd y gronfa ei rhedeg ar wahân i’r fenter stiwdio, ond roedd canfyddiad bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau, a allai fod wedi cael rhywfaint o effaith ar sut yr oedd pobl yn ystyried Pinewood a’r cynnig cyffredinol. At hynny, mae’r ffaith ei fod yn drefniant pum mlynedd yn atgyfnerthu’r safbwynt hwnnw.<sup>4</sup>
- 12.** O ran y gronfa, roedd Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod y cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw adeniliad, ac roedd yn gofyn i symiau dirfawr neu sylweddol iawn o arian gael ei wario ar fusnesau yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu ei bod yn cael ei hystyried yn rhywle i fynd gyda mentrau risg uwch, o bosibl, neu gynrychiadau, oherwydd y gellid cyllido rhai risg is mewn mannau eraill yn y farchnad. Clywsom

---

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-29-18 P3, 5 Tachwedd 2018

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 11

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 13

fod rheoli'r gronfa, gyda'r diwydrwydd dyladwy yr oedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ei arfer, a'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn golygu bod y trefniant yn eithaf cymhleth, ac mewn manau yn eithaf clogyrnaidd, ac nid yw'n ddull y mae Llywodraeth Cymru yn debygol o'i ddefnyddio eto.<sup>5</sup>

**13.** O ran sut yr oedd y gwersi hyn yn cael eu cymhwyso, cawsom wybod bod ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at Cymru Greadigol, sef cam nesaf ei rhyngweithiad â'r sectorau creadigol, wedi ystyried y profiadau gyda Pinewood. Clywsom fod amrywiaeth o fecanweithiau llywodraethu wedi'u sefydlu a chyflwynir adroddiad arnynt i bwyllgor archwilio a risg yr adran yn chwarterol.<sup>6</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod potensial y prosiect hwn a'r heriau diamau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru wrth ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng denu busnesau preifat i economi Cymru a'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi arian cyhoeddus i gyflawni hyn. Fodd bynnag, nid yw'r profiad o berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood yn enghraifft dda o sut i reoli cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer busnesau preifat.

Mae'n hanfodol bod gwersi yn cael eu dysgu o brofiad Pinewood, sy'n dangos yn arbennig y pwysigrwydd o asesu risgiau'n fanwl cyn llofnodi contractau ac ymrwymo i gytundebau cydweithredol. Mae angen tynhau prosesau ar gyfer ymgysylltu â'r sector preifat, gan gynnwys sicrhau eglurder llawn o rolau a chyfrifoldebau, ac rydym yn nodi sicrwydd Llywodraeth Cymru ei bod wedi sefydlu ystod o fecanweithiau llywodraethu gwell i sicrhau'r gwelliannau hyn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gyda'r Pwyllgor, fanylion am sut y mae'r gwahanol wersi a ddysgwyd o'i phrofiadau wrth ymdrin â Pinewood wedi'u gweithredu, eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'u rhannu ar draws Llywodraeth Cymru.

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 15

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 16

## 2. Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

**14.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

“Yn ystod 2013-14, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru drafodaethau gyda swyddogion Pinewood ynglŷn â sefydlu cyfleuster stiwdio o safon fyd-eang yng Nghymru. Byddai hyn yn rhan o rwydwaith byd-eang Pinewood o stiwdios ffilm. I gyd-fynd â'r stiwdio, datblygodd Llywodraeth Cymru gynlluniau hefyd i greu cyllideb fuddsoddi £30 miliwn i gefnogi cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru. Byddai'n cael ei weithredu gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru.”<sup>7</sup>

**15.** Canfu'r adroddiad hefyd:

“Roedd Pinewood eisoes wedi gweithio gyda Llywodraeth Ynys Manaw i gyflwyno Cronfa Ddatblygu Cyfryngau Ynys Manaw yn 2012; dyma gronfa gwerth £25 miliwn i'w defnyddio ar gynyrchiadau ffilm a theledu. Adeiladodd y gronfa hon ar amrywiaeth o fentrau o fewn y sector creadigol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Ynys Manaw ers 1995. Daeth dadansoddiad economaidd annibynnol o gefnogaeth Ynys Manaw i gynyrchiadau ffilm a theledu i'r casgliad ei bod wedi cynhyrchu gwariant lleol uniongyrchol o £100 miliwn a 2,140 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ers 1995.”<sup>8</sup>

**16.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y cynllun busnes gwreiddiol ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau wedi amcangyfrif y byddai gwariant Cymru yn £90 miliwn, a fyddai'n cynrychioli cymhareb trosoledd o 1:3 o ran cyllid cyhoeddus ochr yn ochr â chyllid preifat. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2016 cyfrifwyd y gymhareb wirioneddol gan Lywodraeth Cymru i fod yn 1:1 yn unig.<sup>9</sup>

**17.** Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 12 Gorffennaf 2018 yn nodi y cydnabuwyd yn gynnar y byddai'r amcangyfrifon yn y cynllun gwreiddiol (o 1:3) yn anodd i'w cyflawni.<sup>10</sup> Ac roedd newidiadau yn y farchnad gyda mwy o bobl yn cynnig benthyciadau credydau

<sup>7</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, paragraff 1.1 (Mehfin 2018)

<sup>8</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.4

<sup>9</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 2.7

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018. paragraff 255

treth, er enghraifft. Golygai hyn na fyddai'r cynllun i wario £30 miliwn o fewn dwy flynedd gyntaf y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei gyflawni.

**18.** Roedd y gymhareb trosoledd bellach yn uwch ar 1:1.4 nag oedd ym mis Tachwedd 2016 (1:1). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r gymhareb yn codi i 1:1.9 pan fyddai buddsoddiad ychwanegol disgwylidig o £7 miliwn gan y sector preifat yn dod i mewn (gan ddod â'r cyfanswm i £27 miliwn). Hefyd, os ystyrir adenillion o £4.2 miliwn, yn ôl amcangyfrifon Llywodraeth Cymru, mae'r gymhareb trosoledd yn codi i 1:2 ond yn parhau'n bell o'r rhagamcaniad gwreiddiol o 1:3.

**19.** Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod cydweithrediad Ynys Manaw â Pinewood (a oedd yn rhedeg o 2012 i 2017), yn rhagddyddio cytundeb Llywodraeth Cymru â Pinewood. Felly, roedd yn rhy gynnar i ddweud pa mor llwyddiannus fyddai cydweithrediad Ynys Manaw â Pinewood pan lofnodwyd y Cytundeb Cydweithredol yn 2014. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dibynnu ar y cynllun busnes yr oedd Pinewood wedi'i ddatblygu i Gymru yn seiliedig ar eu profiadau preifat o fuddsoddi eu harian eu hunain mewn cynrychiadau, ond hefyd ar gronfa Ynys Manaw.<sup>11</sup> Roeddent o'r farn nad oedd unrhyw reswm ar y cam hwnnw dros amau profiad a galluoedd Pinewood yn y maes hwn.<sup>12</sup>

**20.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Stiwdio Pinewood ar 24 Gorffennaf 2018,<sup>13</sup> nodwyd bod y ffigurau a ganlyn yn cynrychioli cymhareb frasgywir o 1:6 rhwng cyllid a gwariant ar yr adenillion rhagamcanol ar y pryd<sup>14</sup>:

- Cyllidebau cynrychiadau yn dod i Gymru = £ 75,805,514
- Cyllid gros a ddarperir gan y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau = £ 8,178,463
- Ad-daliad rhagamcanol ym mis Hydref 2016 = £ 6,222,713

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 275

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 277

<sup>13</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>14</sup> Ymddengys bod Pinewood wedi pennu'r gymhareb o 1:6 drwy ddangos yr arian gros a ddarperir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o £8,178,463 namyn yr ad-daliad a ragwelir o £6,222,713, gan roi cyfanswm net o £1,955,750 yn erbyn ei wariant amcangyfrifedig o £13,182,150 yng Nghymru (o fewn cyllideb gynhyrchu gronnu ar y cyfan o £75.8 miliwn)

- Amcangyfrif o wariant Cymru ym mis Hydref 2016 = £ 13,182,150

**21.** Daeth y cytundeb rhwng Pinewood a Llywodraeth Ynys Manaw i ben yn 2017. Dywedodd Pinewood nad oedd yn gallu cynghori Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch cyflwr presennol Cronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau Ynys Manaw am resymau cyfrinachedd.<sup>15</sup>

**22.** Yn y llythyr atom gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, nodwyd:

“Mae'r gronfa hon wedi tanberfformio o gymharu â'r rhagolygon, o ran faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi, a faint o wariant y mae hyn wedi'i ysgogi yn economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i dderbyn enillion ar y buddsoddiad hwn, ond nid yw'r derbyniadau cychwynnol yn edrych yn addawol. Mae Pinewood wedi ymwneud â chronfa debyg ar Ynys Manaw: nid yw'n glir, ar hyn o bryd, i ba raddau y dylai perfformiad y gronfa honno fod wedi peri i swyddogion Llywodraeth Cymru fod â phryderon ynghylch ymwneud Pinewood â chronfa debyg yng Nghymru.”<sup>16</sup>

**23.** Er bod hyn yn ddamcaniaethol, o ystyried diffyg tystiolaeth gadarn ar berfformiad cronfa Ynys Manaw, mae cau Cronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau Ynys Manaw yn 2017 a chysylltiad blaenorol Pinewood â'r trefniant hwnnw yn awgrymu nad oedd y gronfa honno mor llwyddiannus ag a ragwelwyd yn wreiddiol ychwaith. Mae Pinewood wedi gwrthod gwneud sylw ar y mater hwn ar sail cyfrinachedd masnachol.

**24.** Ceisiodd y Pwyllgor ddiweddarad ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd gan Lywodraeth Cymru am berfformiad ei Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, a gwnaethom holi a yw hyn wedi gwella ers iddi gael ei rhoi dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

**25.** Eglurwyd o ran dwy weinyddiaeth y cronfeydd hynny, bod tua £15 miliwn wedi'i fuddsoddi ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweld ychydig o dan £5 miliwn wedi'i ddychwelyd. Ar gyfer rhai cynyrchiadau, mae'n dal yn rhy gynnar i bennu'r enillion ar fuddsoddiad ac ar gyfer eraill sydd wedi bod drwy'r system, maent wedi adennill eu costau'n llwyr.<sup>17</sup>

**26.** Clywsom fod rhai, gan gynnwys *Their Finest*, a oedd yn ffilm lwyddiannus iawn, wedi mwy na dychwelyd y buddsoddiad. Mae nifer o ffilmiau eraill, hyd yma,

<sup>15</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, tystiolaeth ysgrifenedig, (24 Gorffennaf 2018)

<sup>16</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 27



heb berfformio cystal. Un o'r gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru oedd bod llawer iawn o risg ynghlwm wrth rai cynyrchiadau penodol, ac nad yw'r rheini sydd â risg uwch wedi gweld yr enillion a ddisgwyliwyd.<sup>18</sup>

**27.** Roeddem am fod yn glir ynghylch lefel y tanberfformio, gan ganolbwyntio ar y ddau darged mwyaf perthnasol, sef y gwariant ac yna'r enillion. Nodwyd o ran lefel gwariant Cymru, mai'r targed gwreiddiol oedd £90 miliwn.<sup>19</sup> Cadarnhaodd Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, mai'r farn wreiddiol oedd y byddai'n gymhareb fras o 1:3, ac felly gyda Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn, y byddai disgwyl gweld gweithgarwch economaidd yn oddeutu £90 miliwn.<sup>20</sup>

**28.** Eglurodd Mr Slade na fyddai'n ddefnyddiol gwneud darpariaeth ragweld wahanol gan y byddai hynny'n beryglus ond mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl buddsoddi mwy bob blwyddyn nag y mae wedi'i wneud hyd yma ac o ystyried nad yw eisoes wedi gwario'r £30 miliwn, ni fyddai'n cael yr enillion llawn ar hyn o bryd.<sup>21</sup> Ychwanegodd Mr Slade yr ymddengys bod cael trefniant nawdd â Pinewood i ddenu mwy o gwmnïau i Gymru wedi bod yn gynhyrchiol iawn o ran gwariant yng Nghymru.<sup>22</sup>

**29.** Er nad oeddem yn awyddus i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ffigur rhagweld arall, roeddem am gael ymdeimlad o'r drefn maint, a'r bwlch rhwng y rhagolwg o £90 miliwn a gwariant gwirioneddol Cymru.

**30.** Nododd Mr Slade fod oddeutu £15 miliwn o'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, wedi'i fuddsoddi hyd yma. Mae hynny drwy gyfuniad o Pinewood yn stiwardio'r cytundebau strwythuro a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ers hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru wariant cymwysedig o dros £18 miliwn yng Nghymru, ond nid yw'n ystyried yr arian a gaiff ei adfer o nifer o gynyrchiadau, nad yw rhai ohonynt wedi dechrau cynhyrchu eto.<sup>23</sup>

**31.** O ran y targed gwreiddiol o £90 miliwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cael £18 miliwn yn unig, sef 20 y cant o'i tharged. Nodwyd nad oes llawer o raglenni

---

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 27

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 40

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 41

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 43

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 44

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 46

eraill lle y byddech yn cyflawni dim ond 20 y cant o'r targed ac mae hyn yn peri pryder. Eglurodd Mr Slade:

“There will be money still to come through from the legacy projects stewarded originally by Pinewood, and there will be money to come through from the ones that we have managed the fund on since. What I don't know—and it would be unwise for me to give you a figure—is quite what those look like, but it won't look like £90 million.”<sup>24</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

Rydym yn siomedig gyda thanberfformiad y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau hyd yma, ond rydym yn cydnabod natur ddamcaniaethol y diwydiant ffilm a bod y portffolio buddsoddi yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Nid ydym yn awyddus i ddyfarnu a yw gwerth am arian wedi'i sicrhau ar hyn o bryd. Hoffem ailystyried y mater hwn ar ddiwedd 2019 er mwyn mesur cyflymder y cynnydd yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ac enillion.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau ar ddiwedd blwyddyn galendr 2019.

---

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 56

### 3. Gwrthdaro buddiannau

**32.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith,<sup>25</sup> (Ysgrifennydd y Cabinet), ym mis Awst 2016, yn nodi eu pryderon ynglŷn â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo "efallai bod gwrthdaro o ran cysylltiad Pinewood â'r gyllideb gan fod diddordeb ganddynt mewn darparu ei wasanaethau ei hun i'r diwydiant o Lundain (nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol). Fodd bynnag, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod gan Pinewood fantais gystadleuol annheg wrth ddiogelu gwaith ôl-gynhyrchu yng Nghymru ac roedd gan hyn y gallu i leihau'r manteision economaidd i Gymru".<sup>26</sup>

**33.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yr ymddengys bod:

"diffyg tryloywder ynglŷn â graddau rôl ehangach Grŵp Pinewood mewn cynyrchiadau. Gwaethygodd y diffyg tryloywder ymddangosiadol yma'r pryderon ynglŷn â'r fantais ariannol y gallai Pinewood ei chael dros gwmnïau eraill drwy ei fynediad ecsgliwsif i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau."<sup>27</sup>

**34.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn mynd ymlaen i ddweud:

"ni ragwelwyd y risg y gallai'r canfyddiad hwn fodoli adeg briffio'r Gweinidog yn 2014 lle argymhellwyd cymeradwyo'r Cytundeb Cydweithredol, neu fe gafodd ei hystyried yn ddibwys gan swyddogion pan gafodd y cyflwyniad ei roi i'r Gweinidog a argymhellodd fod y Cytundeb Cydweithredol yn cael ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2014, oherwydd nid yw'r papur cyflwyno yn dweud dim am y pwynt hwn."<sup>28</sup>

**35.** Roedd tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn dweud bod Penawdau'r Telerau a gytunwyd gan y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a chynghorwyr paneli sector y Gweinidogion wedi'u

<sup>25</sup> Newidiwyd teitl Ysgrifennydd y Cabinet i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 8 Tachwedd 2017.

<sup>26</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 2.6

<sup>27</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 2.7

<sup>28</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, troednodyn 19 (tudalen 27)

hystyried i ganiatáu datblygu perthynas werth chweil rhwng Pinewood a Llywodraeth Cymru.<sup>29</sup>

**36.** Yn ddiweddarach daeth y panel sector a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau i'r casgliad bod Pinewood, yn eu tyb hwy, yn ymddwyn mewn ffordd a allai fod yn groes i'r cytundeb ac a oedd yn creu gwrthdaro buddiannau (drwy hyrwyddo ei wasanaethau ôl-gynhyrchu ei hun). O ganlyniad i hyn, roedd cyngor swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog yn awgrymu y dylent edrych ar y cytundeb ac ystyried a oedd unrhyw gamau i'w gorfodi ynteu a ddylent ymrwymo i gytundeb newydd gyda Pinewood.

**37.** Mewn llythyr atom, dywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu fod y Pwyllgor wedi cael rhywfaint o dystiolaeth anghyson ynghylch i ba raddau yr oedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y cytundeb gwreiddiol. Pan ofynnwyd ar 20 Mehefin 2018 pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'r gwrthdaro buddiannau posibl ar ddechrau'r berthynas â Pinewood, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor y 'cafodd gwrthdaro buddiannau ei gwmpasu yn y cytundeb gwreiddiol'.<sup>30</sup>

**38.** Fodd bynnag, tynnodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ein sylw at y ffaith na chafodd yr honiad hwn ei gefnogi gan adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd wedi nodi yn yr ail bwynt bwled dan baragraff 2.6, o ran darparu gwasanaethau Pinewood i'r diwydiant o Lundain, "n[a]d yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol".<sup>31</sup>

**39.** Felly, gwnaethom ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y dystiolaeth anghyson, gan dynnu sylw at y ffaith bod Pinewood wedi gallu cynhyrchu refeniw o'i rôl fel gweithredwr stiwdio a hefyd wrth farchnata'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru a ydynt yn derbyn nad oedd cyfeiriad penodol at y gwrthdaro buddiannau posibl hyn ar gyfer Pinewood yn y papur briffio a ddarparwyd i'r Gweinidog ym mis Chwefror 2014, a oedd yn argymhell y Cytundeb Cydweithredol.

---

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 215

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Mehefin 2018, paragraff 279

<sup>31</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

**40.** Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru inni nad oedd y Cyngor Gweinidogol yn cynnwys cyfeiriad penodol at wrthdaro buddiannau, fel yr adroddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.<sup>32</sup>

**41.** Nodwyd bod y dystiolaeth a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb ar ôl y digwyddiad, yn hytrach na nodi'r risg ymlaen llaw, y gallai gwrthdaro buddiannau godi. Holwyd p'un a gafodd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r gwrthdaro buddiannau posibl eu nodi ar y dechrau, a dim ond wedyn y rhoddwyd camau lliniaru ar waith i ddiogelu rhag sefyllfa lle gallai'r gwrthdaro buddiannau ddod yn broblem yn ymarferol.

**42.** Clywsom gan swyddogion Llywodraeth Cymru fod gweinyddu'r cyllid a lle'r oedd y cyllid hwnnw yn eistedd, ynghyd â phwy fyddai'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid, bob amser wedi cael ei nodi fel maes lle gallai fod gwrthdaro buddiannau posibl. Cawsom wybod mai dyma'r rheswm dros gyflwyno'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau ac y gwnaed penodiadau iddo drwy broses benodi gyhoeddus. Penderfynwyd ar bob prosiect a ddaeth o argymhelliad gan Pinewood gan y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a byddai'r broses hon wedi cynnwys sgysiau gyda Gweinidogion ynghylch gwrthdaro posibl.<sup>33</sup>

## Argymhellion

**Argymhelliad 3.** Mae'n amlwg inni na roddodd y swyddogion ddigon o sylw ar y cychwyn i'r gwrthdaro buddiannau a oedd yn rhan annatod o berthynas gytundebol Llywodraeth Cymru â Pinewood. Dim ond yn ddiweddarach, pan ddaeth y gwrthdaro hwn rhwng cyfraniad Pinewood yn y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'i gyfraniad ehangach mewn gwaith cynhyrchu yng Nghymru yn gynyddol amlwg, y cymerwyd camau cywiro. Gallai risg yr achos hwn o wrthdaro buddiannau yn digwydd fod wedi'i nodi o'r cychwyn cyntaf pan ddechreuodd Llywodraeth Cymru gydweithio â Pinewood, ac yn wir, dylai hyn fod wedi digwydd. Rydym o'r farn bod dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau yn unig, i liniaru ei risgiau, wedi bod yn annigonol.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd wedyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru i gynghori'r Gweinidog i ailystyried natur y cytundeb yn dilyn pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau yn cael eu mynegi. Fodd bynnag, rydym yn bryderus, fel yr adroddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn y dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018. Paragraff 33

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 36

Chyfathrebu, na roddwyd cyngor penodol i'r Gweinidog ar wrthdaro buddiannau cyn i Lywodraeth Cymru ymrwmo i gytundeb â Pinewood.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'n drylwyr ei threfniadau ar gyfer nodi ac asesu achosion posibl o wrthdaro buddiannau a bod y rhain, ynghyd â chynigion lliniaru cadarn, yn cael eu gwneud yn gwbl eglur mewn cyngor a ddarperir i Weinidogion cyn ymrwmo i gytundebau â busnes yn y sector preifat.

## 4. Refeniw amcangyfrifedig

**43.** Cafodd y rhagolwg refeniw blynyddol y stiwdio o £714,000 ei gyflenwi i swyddogion Llywodraeth Cymru gan Pinewood, ac yna cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad i Ysgrifennydd y Cabinet ar 30 Hydref 2017.<sup>34</sup> Mae cyfanswm y costau gweithredu net (£392,000 heb gynnwys y ffi reoli sy'n daladwy i Pinewood) a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tybio bod y ffigur hwn yn realistig.<sup>35</sup>

**44.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth yr Archwilydd Cyffredinol fod “dibynadwyedd y rhagolygon wedi’u profi a’u harchwilio gan swyddogion yn ogystal ag ymgynghorwyr eiddo annibynnol. Fodd bynnag, pan ddarparwyd y ffigur, ychwanegodd Pinewood y cafeat y gallai’r refeniw fod yn is oherwydd cystadleuaeth gynyddol Bad Wolf Studios”. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi fel a ganlyn:

“Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw’r rhagolygon ariannol hyn yn cynrychioli gwerth da am arian. Fodd bynnag, yn eu barn nhw, roedd yn well ymrwymo i gytundeb tair blynedd gyda Pinewood gyda’r bwriad o gynhyrchu refeniw masnachol, o gymharu â’r costau o adael y safle’n wag wrth iddynt chwilio am denant newydd.”<sup>36</sup>

**45.** Roedd cofnodion Pinewood yn dynodi bod y gyfradd deiliadaeth ar gyfer camau 1-3 o fis Tachwedd 2017 hyd at ddiwedd mis Mehefin 2018, yn 44.12 y cant. Llywodraeth Cymru sy’n rheoli tenantiaid swyddfa, ac felly nid yw Pinewood wedi gweld y cyfraddau deiliadaeth ar gyfer y swyddfeydd.<sup>37</sup>

**46.** Mae’r cyflenwad cynyddol o ofod stiwdio sy’n deillio o agor Bad Wolf Studios, yn ôl Pinewood, wedi effeithio ar y galw am ofod stiwdio yn safle Gwynllŵg gyda gostyngiad yn yr ymholiadau a geir.<sup>38</sup>

**47.** Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ym mis Mehefin 2018, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

<sup>34</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.14

<sup>35</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Diagram 10

<sup>36</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.15

<sup>37</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, [tystiolaeth ysgrifenedig](#), (24 Gorffennaf 2018)

<sup>38</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, [tystiolaeth ysgrifenedig](#), (24 Gorffennaf 2018)

at y ffaith bod Pinewood yn gweithredu ar gapasiti.<sup>39</sup> At hynny, dywedodd Stiwdio Pinewood wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

“Pinewood is not responsible for projecting the annual revenues for the studio. Given the studio is now owned by the Welsh Government and merely operated by Pinewood on its behalf, questions regarding revenue are more appropriately posed to the Welsh Government.”<sup>40</sup>

**48.** Yn ei lythyr atom, dywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

“Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth yr Aelodau fod Pinewood ar hyn o bryd yn ‘gweithredu ar gapasiti’. Nid yw’r Pwyllgor yn eglur beth yw ystyr “ar gapasiti” yn union, ac a yw’r refeniw amcangyfrifedig blynyddol wedi’i ddiwygio yng ngoleuni’r ffaith hon. Roedd gohebiaeth ddiweddar gan Pinewood yn nodi mai’r gyfradd deiliadaeth yr adeiladau ar gyfer Cyfnodau 1-3, sef o fis Tachwedd 2017 hyd ddiwedd mis Mehefin 2018 oedd 44.12 y cant. Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn edrych ymhellach ar sut y mae hyn yn gyson â datganiad Ysgrifennydd y Cabinet fod y stiwdio yn ‘gweithredu ar gapasiti’.”<sup>41</sup>

**49.** Ym mis Tachwedd 2018, eglurodd Llywodraeth Cymru:

“Pan aeth y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Gorffennaf eleni [2018]<sup>42</sup>, dywedwyd bod Pinewood ar y trywydd iawn i gyflawni’r refeniw a ragwelwyd ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf y cytundeb newydd. Ers hynny, mae refeniw rhagamcanol wedi gostwng ac mae’r cyfleuster wedi bod yn llai prysur nag yn gynharach yn y flwyddyn.”<sup>43</sup>

**50.** Yn sgil yr honiad gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu bod Stiwdio Pinewood yn ‘gweithredu ar gapasiti’, gwnaethom ofyn sut roedd hyn yn cymharu â chyfeiriad Pinewood at gyfradd deiliadaeth o ychydig dros 44 y cant.

**51.** Clywsom fod y lefelau deiliadaeth yn y stiwdio yn amrywio o ystyried bod cynyrchiadau’n mynd a dod a bod y lle yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd

---

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Mehefin 2018, paragraff 162

<sup>40</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, [tystiolaeth ysgrifenedig](#), (24 Gorffennaf 2018)

<sup>41</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>42</sup> Newidiwyd teitl y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon i’r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ym mis Ionwr 2019.

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-29-18 P3, 5 Tachwedd 2018



cyfnewidiol. Roedd rhagamcanion gwreiddiol Pinewood o'r swm refeniw a gynhrychir yn seiliedig ar gyfradd deiliadaeth o tua 70 i 75 y cant dros y flwyddyn gyfan. Ar yr adeg yr oedd yn ymateb i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu roedd yn cynnal cyfradd ddeiliadaeth o tua 50 y cant ar gyfer y cyfnod yr oedd wedi bod yn rheoli dan y trefniant gwasanaethau rheoli newydd.<sup>44</sup>

**52.** Gwnaethom holi a yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod cyfradd ddeiliadaeth Pinewood yn awgrymu bod 56 y cant o gapasiti sbâr nad yw'n cael ei ddefnyddio ac, o ganlyniad i hyn, bod ffynonellau refeniw pwysig yn cael eu colli i'r pwrs cyhoeddus.

**53.** Eglurodd Mr Slade na fyddai'n cytuno â'r ffigur 56 y cant ar gyfer capasiti sbâr ond roedd yn cydnabod bod y stiwdio yn annhebygol o sicrhau deiliadaeth 100 y cant. Eglurodd:

“...that's not in the nature of the business. Productions come and go, and sometimes it's flat out, as I say, and other times it's a lot quieter.”<sup>45</sup>

**54.** Yn olaf, gwnaethom holi ynghylch y datganiad ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru bod y rhagolygon refeniw bellach wedi gostwng, a cheisiwyd eglurhad ynghylch beth yw'r rhagolygon refeniw diweddaraf ar gyfer Pinewood Studio Wales a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r ffigur o £714,000 a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**55.** Cadarnhawyd mai ffigur Pinewood oedd y £714,000 ynghylch yr hyn yr oedd yn ei ddisgwyl o ran refeniw blynyddol o ddeiliadaeth. Mewn rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, cafodd ffigurau manwl am yr holl refeniw ar gyfer Pinewood Studio Wales am y flwyddyn ariannol ddiwethaf eu rhannu gyda ni. Cawsom wybod bod Pinewood Studio Wales ar hyn o bryd yn cynhyrchu incwm blynyddol o tua £100,000 gan gynnwys TAW o Drwyddedau Canolfan y Cyfryngau ar y safle. Mae 17 o gwmnïau allweddol y gadwyn gyflenwi wedi'u lleoli yn y cyfleuster, gan gynnwys Marigold Costumes Limited, Sgil Cymru Cyf, Alpha Grip (Cardiff) Limited, Movietech Camera Rentals Limited ac Oh So Small Productions Limited. Mae'r llwyfannau, y swyddfeydd cynhyrchu a'r gweithdai wedi creu oddeutu £427,000 rhyngddynt, gan gynnwys incwm TAW o ddechrau'r cytundebau; 1 Tachwedd 2017 i 22 Tachwedd 2018.<sup>46</sup>

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraffau 68-70

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 87

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 Papur i'w nodi 4, 3 Rhagfyr 2018

## Casgliadau ac argymhellion

Rydym yn derbyn ac yn cytuno ag eglurhad Llywodraeth Cymru nad yw Stiwdio Pinewood yn debygol o fyth weithredu ar gapasiti 100 y cant. Rydym yn cydnabod bod hyn oherwydd y lefelau uchel o anghysondeb yn y diwydiant ac na ellir pennu pryd y bydd cynyrchiadau'n dechrau nac yn gorffen.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch y tanberfformiad o ran cynhyrchu incwm, o gofio bod y £472,000 a gynhyrchwyd hyd yma mor sylweddol islaw amcanestyniad refeniw blynyddol Pinewood o £714,000. Rydym yn cydnabod bod y stiwdio yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar o ran gweithredu a chredwn ei fod yn gall peidio â mynegi barn ar berfformiad tan ddyddiad diweddarach.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell, ar y cyd ag argymhelliad 2, bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad ariannol a rhagamcanion incwm ym mis Rhagfyr 2019.

## 5. Trefniant nawdd

**56.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn egluro y byddai Llywodraeth Cymru yn talu £438,000 i Pinewood bob blwyddyn am bum mlynedd i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (y cyfeirir ato fel trefniant nawdd).<sup>47</sup> Nodir yn yr adroddiad fel a ganlyn:

“Yn fuan ar ôl i'r Cytundeb Cydweithredol gael ei lofnodi, cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod TAW wedi'i hepgor o'r cytundeb nawdd gwreiddiol. Felly, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Gweinidog i gynyddu'r nawdd blynyddol o £87,600 i £525,600. Felly byddai'r cyfanswm sy'n daladwy i Pinewood yn ystod y cytundeb nawdd pum mlynedd yn £2.63 miliwn.”<sup>48</sup>

**57.** Roedd y llythyr atom gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu hefyd yn tynnu sylw at y pryderon hyn. Mae'r camgymeriad hwn a'r atgyweiriadau na ragwelwyd i'r to a grybwyllir uchod yn arwain at bryderon ynghylch faint o ddiwydrwydd dyladwy a oedd yn ystod y gwaith hwn. Yn benodol, mae'n anodd deall sut na chafodd y goblygiadau TAW eu deall os cafwyd cyngor arbenigol.<sup>49</sup>

**58.** Holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru sut y daeth yr achos o hepgor TAW o'r cytundeb nawdd gwreiddiol i'r amlwg a pham na chafodd ei godi fel rhan o'i diwydrwydd dyladwy cyn llofnodi'r Cytundeb Cydweithredol sy'n rhwymo'n gyfreithiol â Pinewood.

**59.** Eglurwyd bod hepgoriad ac mai'r egwyddor weithredu gyffredinol hyd at y pwynt hwnnw oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffigurau nad oeddent yn cynnwys TAW ac nid oedd yn glir a oedd yr unigolyn a oedd yn paratoi'r cyngor wedi meddwl y byddai cyngor atodol ar sut y byddai hyn yn cael ei drin neu y byddai modd ei adennill. Dywedodd Mr Slade wrthym:

“... in the light of this particular episode, advice went out from the centre of our group saying, ‘Look, from now on, when we’re putting advice to Ministers, we’ve got to be very clear how we think VAT is going to be treated, whether or not it’s going to be recoverable’.”<sup>50</sup>

<sup>47</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.27

<sup>48</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.28

<sup>49</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 102

**60.** O ran y gwersi a ddysgwyd, roedd Mr Slade yn cydnabod bod hyn yn enghraifft o amryfusedd sydd wedi gorfodi newid system o ran sut y caiff cyngor ei gyflwyno i Weinidogion. Bellach mae canllawiau ar waith sy'n nodi fel a ganlyn:

“Following the recent advice that wasn't right on Pinewood and how VAT would or wouldn't be treated, we now need to make sure that, in any of our key submissions to Ministers on matters of this sort, we are clear how we think VAT will be treated and whether or not it will be recoverable.”<sup>51</sup>

**61.** Cadarnhawyd na ellid adennill y £87,600 o TAW a bod hyn yn cynrychioli cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Nodwyd â phryder bod ansawdd y cyngor a ddarparwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gan ei swyddogion yn gwbl anfoddhaol yn yr achos hwn.

## Casgliadau ac argymhellion

Rydym yn bryderus iawn ynghylch y ffaith y cafodd TAW ei hepgor o'r cytundeb nawdd gwreiddiol, gan fod hyn yn bwrw amheuaeth ar gadernid y gwaith diwydrwydd dyladwy, yn ogystal â methiant i gael cyngor arbenigol ar oblygiadau TAW.

Ymddengys bod diffyg capasiti o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o ddatblygu cynigion i ymgymryd â threfniadau masnachol ansafonol (megis Pinewood) â chwmnïau preifat yn ddigon cadarn. Er ein bod yn croesawu'r newid system y mae'r achos penodol hwn o hepgor TAW wedi arwain ato, rydym yn awyddus i atgyfnerthu y dylai ystyriaeth drylwyr o oblygiadau TAW fod yn fater o arfer, ynghyd â mynediad parod i gymorth TAW technegol arbenigol lle bo angen.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut y mae wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod goblygiadau TAW yn cael eu hystyried yn llawn gan swyddogion mewn modd prydlon, gan gynnwys darparu cymorth arbenigol lle bo angen, a bod cyngor cyflawn a chywir yn cael ei roi i Weinidogion Cymru ar oblygiadau TAW yr holl gynigion a gyflwynir i'w cymeradwyo.

---

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 102

## 6. Natur yr eiddo

**62.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y cafodd cyflwr yr adeilad ar safle Gwynllŵg, cyn i Lywodraeth Cymru ei brynu, ei arsylwi gan y priswyr annibynnol ac adroddwyd arno fel a ganlyn:

“roedd yn ymddangos bod yr adeilad mewn cyflwr rhesymol yn gyffredinol yn gymesur â'i oedran a'i ddefnydd. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion arwyddocaol neu eitemau atgyweirio brys fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos neu y tu allan i sgôp y broses gynnal a chadw flynyddol arferol.”<sup>52</sup>

**63.** Mae cyflwr yr adeilad a nodir uchod yn anghyson â'r angen dilynol i wneud atgyweiriadau hanfodol i do'r adeilad a ganfuwyd ei fod yn gollwng.<sup>53</sup> At hynny, mae'r adroddiad yn nodi fel y ganlyn:

“Cwblhawyd y broses o brynu safle Gwynllŵg gan Lywodraeth Cymru ar 7 Chwefror 2014. Nid oedd union raddau'r gwaith atgyweirio a'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer yr adeilad wedi'u cytuno na'u cwblhau rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood ar y dyddiad prynu.”<sup>54</sup>

**64.** Mewn tystiolaeth lafar i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, dywedodd Llywodraeth Cymru y cafwyd prisiad annibynnol cyn caffael yr adeilad. Cafodd y Pwyllgor wybod nad oedd yn arolwg strwythurol ond prisiad. Roedd y prisiwr wedi dweud y byddai angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y to ond nad oedd unrhyw ddiffygion mawr yn gysylltiedig ag ef ac felly roedd wedi prisiô'r adeilad ar y sail honno. Dan gontract, ni chredai Llywodraeth Cymru fod unrhyw atebolrwydd cyfreithiol ar y prisiwr. Felly, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cymryd camau cyfreithiol i gael iawndal, byddai'n rhaid iddi brofi bod gwerth yr adeilad yn sylweddol is na'r gwerth a dalwyd amdano o ganlyniad i'r to.<sup>55</sup>

**65.** Dywedodd Mick McGuire, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau Llywodraeth Cymru ar y pryd, wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

“The roof did leak and a running repair could have worked. However, Pinewood, as the tenant, insisted that it should not leak at any stage in

<sup>52</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.14

<sup>53</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.20

<sup>54</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.19

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 129

the future, and therefore Welsh Government officials decided not just to repair but to reinforce and improve the quality of the roof to extend its life. That is why it cost more than a simple repair.”<sup>56</sup>

**66.** Roedd llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, dyddiedig 11 Hydref 2018, yn ymhelaethu ar yr opsiwn o wneud mân atgyweiriadau i do'r stiwdio i gynnwys y risg o ran enw da o beidio â gwneud hynny, er enghraifft, os yw'n cael effaith ar amserlenni ffilmio neu y gallai setiau gael eu difrodi o ganlyniad i ddŵr parhaus fel bod cynyrchiadau'n cael eu gohirio gyda goblygiadau cyllidebol sylweddol i'r cwmnïau cynhyrchu. Mae'r cynllun yn ymestyn oes y to yn sylweddol ac yn cynnwys gwarant 20 mlynedd, a fyddai'n cael ei ystyried gan brynwr, pe bai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwerthu'r eiddo yn y dyfodol.<sup>57</sup>

**67.** Clywodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu nad oedd y materion hyn wedi'u nodi cyn y pryniant, gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg adeilad llawn, dim ond prisiad. Roedd yr adroddiad prisio hwn yn dweud na nodwyd “unrhyw ddiffygion neu eitemau atgyweirio brys neu arwyddocaol a fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos”. Mynegodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu syndod nad oedd prynu eiddo gwerth £6 miliwn yn ddarostyngedig i arolwg adeilad mwy cynhwysfawr, y byddem yn disgwyl iddo fod yn arfer cyffredin ar bryniant o'r gwerth hwn, ac nid oedd yn fodlon ar ymateb y Llywodraeth ar y pwynt hwn.<sup>58</sup>

**68.** Rydym yn nodi y gellir dadlau bod y safle yng Ngwynllŵg yn sylweddol o ran ei faint a'i natur arbenigol ac yn ogystal â bod yn adeilad rhestredig Gradd II mae tyrbîn gwynt ar y safle hefyd. Gwnaethom herio swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch pam na chomisiynwyd arolwg adeilad llawn cyn ei brynu.

**69.** Eglurodd Tim Howard, Dirprwy Gyfarwyddwr Eiddo, Llywodraeth Cymru fod gan Lywodraeth Cymru wybodaeth dda am hanes yr adeilad a'i fod yn cael ei werthu gan fuddsoddwr sefydliadol, a oedd yn ddangosydd, nid gwarant, fod yr adeilad wedi'i gynnal i safon resymol yn ôl pob tebyg.<sup>59</sup> Ychwanegodd Mr Howard:

“...at the time of purchase, there was an ongoing discussion with Pinewood about the possibility of raising the level of the roof. So, it was

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 129

<sup>57</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Hydref 2018

<sup>58</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 115

a better than 50:50 chance at the time that we bought the building that the roof that was there wasn't the roof that was going to be there in the fullness of time, and we actually went to the extent of getting advice on the costs of undertaking that work. So, I think all of those factors combined give some reasoning as to why we didn't think a roof survey was necessary in this instance.”<sup>60</sup>

**70.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Penawdau Telerau'r brydles yn cyfeirio at Pinewood yn gwneud cyfraniad tuag at gost gwelliannau i'r adeilad. Cyfeirir at ffigur o £800,000 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru pam, o gofio bod Pinewood yn mynnu na ddylai'r to ollwng, na ofynnwyd i Pinewood dalu am yr atgyweiriadau to cyfan, neu rai ohonynt, fel gwelliannau tenant.

**71.** Cawsom wybod bod hyn oherwydd mai Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am atgyweirio'r to, o dan y cytundeb ar gyfer prydles. Cawsom wybod:

“The Heads of Terms set out two alternative scenarios for undertaking improvements to the building, and there were two sets of improvements. There were what were deemed the tenant's improvements, which were creating the sound stages and undertaking some works to the roller shutter doors. That was the £1.5 million-worth of work that was referenced in the Heads of Terms. I think the choices were: either the Welsh Government would undertake those works, or they would be undertaken by Pinewood with a contribution from Welsh Government towards the cost. So, those were the tenant's works. Separate to that, under the agreement for lease, there were the landlord's works, which were making sure that the roof was sound, and also recommissioning the mechanical and electrical equipment within the building.”<sup>61</sup>

**72.** Pan holwyd Mr Howard, gydag ôl-ddoethineb, p'un a oedd yn gamgymeriad peidio â chael arolwg llawn o'r adeilad, dywedodd fod yr arolygon a wnaeth Llywodraeth Cymru wedi hynny wedi nodi bod y gwaith a oedd yn ofynnol angen ei wneud yn syth ac y gellid fod wedi'i gwblhau am swm cymharol fach o tua £100,000, gan ychwanegu:

“The decision that we took was more about balancing the potential for future repair liabilities on the roof, because part of the problem with

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 116

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 130

roofs is that you go up to repair one particular item, and you can disturb other elements and create other problems. Obviously, we didn't want that. So, I think that the surveys that we had done afterwards that indicated the cost of works supported the decision that we took not to do a survey of the roof before we bought it. The expenditure was more an investment in the asset than a response to a want of repair.”<sup>62</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

Rydym o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn esgeulus yn penderfynu peidio â chomisiynu arolwg strwythur o'r adeilad ar safle Gwynllŵg cyn ei brynu. Byddem wedi disgwyl arolwg cynhwysfawr wrth brynu safle gwerth £6 miliwn.

Nid ydym yn fodlon ar ragdybiaeth Llywodraeth Cymru y byddai'r adeilad wedi'i gynnal i safon resymol gan ei fod yn cael ei werthu gan fuddsoddwr sefydliadol. Rydym yn cael ein synnu ymhellach gan yr ymagwedd hon, o ystyried bod prynu'r safle yn cynnwys tyrbín gwynt ac adeilad ffermdy rhestredig Gradd II, sy'n fathau gwahanol iawn o asedau ynddynt eu hunain.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cael arolygon, nid dim ond prisiadau, ar bob caffaeliad eiddo sy'n uwch na £1 miliwn.

---

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 132



## 7. Gwerth y gwaith a wnaed gan Pinewood

**73.** Roedd y Cyngor Gweinidogol a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn argymhell dod â'r contractau gwreiddiol gyda Pinewood (y Cytundeb Cydweithredol a'r Cytundeb Prydlesu) i ben yn nodi bod "Pinewood wedi gwario tua £800,000 yn cynnal gwaith ac yn buddsoddi mewn offer. Aeth yn ei flaen i ddweud y byddai'r cytundeb terfynu yn cynnwys naratif yn nodi y byddai budd unrhyw newidiadau a wnaeth Pinewood i'r adeilad (gwelliannau'r tenant) yn aros ac yn dod i feddiant Llywodraeth Cymru".<sup>63</sup>

**74.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi bod cynnwys y Cyngor Gweinidogol yn groes i safbwynt Pinewood ar y mater. Mae swyddogion gweithredol Pinewood wedi nodi bod Penawdau'r Telerau (a oedd yn destun contract) yn darparu naill ai (i) y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r gwaith gosod ac y byddai Pinewood yn gwneud cyfraniad o £800,000; neu (ii) y byddai Pinewood yn cwblhau'r gwaith gosod ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £1.8 miliwn (gan gynnwys TAW) tuag at y gost. "Aethant ymlaen i ddweud y nad yw'r Cytundeb i Brydlesu yn cyfeirio at yr £800,000 ond ei fod yn rhoi manylion y gwaith y disgwylir i'r tenant ei wneud a bod gofyn i Lywodraeth Cymru gyfrannu £1.8 miliwn".<sup>64</sup>

**75.** At hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i Swyddfa Archwilio Cymru "nad oes ganddynt restr o'r gwelliannau mae'r tenant wedi'u cwblhau hyd yma, a'u bod bellach wedi cael dod i feddiant Llywodraeth Cymru".<sup>65</sup>

**76.** Yn ôl tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

"It is normal for a lease to require a tenant to make good the property at the end of the lease and hand it back in at least as good condition as it was at the outset. And, if a tenant does improvements to a building that the landlord decides have not added value and wants them removed, it is appropriate for the landlord to require the tenant to remove the tenants' improvements."<sup>66</sup>

<sup>63</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.10

<sup>64</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.11

<sup>65</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 3.10

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 205

## Penawdau'r Telerau

**77.** Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y gwnaeth Pinewood ymrwymiad ei fod yn bwriadu gwella'r adeilad ar ôl iddo ddod yn denant, gan gynnwys gwario arian yn gwella'r adeilad ac, yn benodol, datblygu'r set o swyddfeydd i gartrefu'r 17 o is-denantiaid neu drwyddedai, sy'n eistedd oddi tano ac yn cyflogi 34 o bobl yno. Clywodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

“They did that work, and I don't believe it cost £800,000, but they have provided some evidence that it cost a significant portion of that amount but not the full amount.”<sup>67</sup>

**78.** Wrth ystyried y dystiolaeth hon, dywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrthym:

“Daeth yn amlwg, fodd bynnag, nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod gwerth y gwaith a wnaed gan Pinewood, ac nad oedd gwerth y gwaith hwn wedi'i nodi yn y Cytundeb i Brydlesu'r safle. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn y sesiwn gyda'r Gweinidog a swyddogion ar 12 Gorffennaf, er bod yr Aelodau'n teimlo bod y mater hwn yn haeddu rhagor o waith craffu, yn bennaf oherwydd y byddem yn disgwyl y byddai atodlen o waith sy'n ofynnol wedi'i hatodi i unrhyw gytundeb prydlesu.”<sup>68</sup>

**79.** Roedd gan y Cyngor Gweinidogol y cyfeiriwyd ato yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ddydiad o fis Medi 2017. Roedd Pinewood wedi bod yn y stiwdio am o leiaf ddwy flynedd erbyn hyn. Roedd y cyngor yn ymwneud â dod â'r a'r Cytundeb Cydweithredol a'r Cytundeb Prydlesu presennol i ben, nid rhoi'r denantiaeth.

**80.** Holwyd pam felly y dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu na fyddai'r gwaith wedi'i wneud ar adeg rhoi'r cyngor i'r Gweinidog gan fod yr argymhelliad yn dweud y byddai Pinewood yn cael y denantiaeth ar yr eiddo, ac felly ni allai fod wedi gwneud unrhyw welliannau tenant ar adeg derbyn y cyngor hwnnw”.<sup>69</sup>

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 188

<sup>68</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Gorffennaf 2018, paragraff 199

**81.** Eglurodd Mr Slade fod rhywfaint o ddryswch ynghylch y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, a oedd yn gysylltiedig â phwy oedd am fod yn talu am ba waith a'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a oedd yng nghytundeb gwreiddiol penawdau'r telerau, nad oeddent yn rhwymol a beth a oedd yn y contract yn y diwedd.<sup>70</sup>

**82.** Eglurodd Mr Howard hyn ymhellach drwy ddweud:

“I think possibly the explanation is in those two options that were set out in the Heads of Terms, as to whether the Welsh Government undertook the fit-out works or whether Pinewood undertook the fit-out works. I think that, if I remember rightly, in the instance that Pinewood undertook the fit-out works, the reference to the further investment that they would make was specified as being over the term of the lease. So, obviously, that was a 15-year term. At the point that the evidence was given, we were only two years into that lease term. So, maybe that's what the official was getting at, that there was a long period following that in which the investment could have been made.”<sup>71</sup>

**83.** Dywedodd Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau Llywodraeth Cymru ar y pryd, wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, fod rhywfaint o dystiolaeth wedi'i darparu i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyfran sylweddol o'r gwariant yr aethpwyd iddo ar gyfer set o swyddfeydd lle mae'r is-denantiad.<sup>72</sup> Holwyd pam nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu darparu atodlen i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwaith gwella a wnaethpwyd gan Pinewood ar y stiwdio.

**84.** Cawsom wybod nad ofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru am atodlen o'r gwaith ac y gallai fod dryswch yn deillio o'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan y swyddogion. Eglurodd Mr Howard mai gwelliannau'r tenant a bennir yn y cytundeb ar gyfer prydles yw'r rhai a ariannwyd o gyfraniad gan Weinidogion Cymru. Roedd y gwelliannau gwerth £800,000 ar wahân ac ni throsglwyddodd ei hun fel rhwymedigaeth i'r byrdles ei hun.<sup>73</sup>

**85.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu, yng nghyd-destun trafodaethau o'r fath, y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn glir ynghylch ei disgwyliadau a'r hyn y

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 158

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 159

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. 12 Gorffennaf 2018, paragraff 188

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 174

credai'n rhesymol i roi darpariaeth ariannol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd gallai effeithio ar y fargen a fyddai'n cael ei gwneud gyda'r parti contractio arall. Ymddengys nad oedd yr ymagwedd Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaethau digonol yn weinyddol ar gyfer gofyn y cwestiynau hynny a gwneud y cyfrifiadau a allai fod wedi cynhyrchu canlyniad mwy ffafriol o ran gwerth am arian i'r trethdalwr.

**86.** Aethom ymlaen i gwestiynu a oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno bod geiriad y cyngor a roddwyd i'r Gweinidog yn y papur briffio ym mis Medi 2017 sy'n nodi bod "Pinewood wedi gwario tua £800,000 yn cynnal gwaith ac yn buddsoddi mewn offer" yn anghywir ac o bosibl yn gamarweiniol.<sup>74</sup>

**87.** Dywedodd Mr Slade wrthym na ellid gwirio'r ffigur £800,000, gan ychwanegu ei bod yn glir bod Pinewood wedi gwneud llawer o waith a fyddai'n gwella'r safle a gwerth y cyfleuster, ond nad oedd yn ymwybodol o unrhyw atodlen o waith sy'n nodi beth oedd y gwaith hwnnw. Dywedodd Mr Slade:

"It's possible that the official, in making the advice to the Minister, was going back to the original Heads of Terms arrangement and carrying that forward. In which case, if that was so, that would have been misleading or inaccurate."<sup>75</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

Mae'r diffyg eglurder o ran gwerth y gwaith a wnaed gan Pinewood, heb ddim manylion am werth y gwaith a bennir yn y 'Cytundeb i Brydlesu' ar gyfer y safle, wedi arwain at gostau ychwanegol diangen i'r pwrs cyhoeddus. Roeddem yn synnu ac yn bryderus o ddysgu yr ymddengys nad oedd Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli hyd yn ddiweddar nad oedd y datrysiad arfaethedig o'r materion hyn o fewn Penawdau'r Telerau wedi cael eu cynnwys yn y contract gwirioneddol â Pinewood. At hynny, rydym yn pryderu nad oedd gan Lywodraeth Cymru atodlen o welliannau'r tenant sydd wedi'u cwblhau hyd yma.

Mae'r methiannau hyn yn ein harwain i'r casgliad bod diffyg eglurder o ran pwys oedd yn gyfrifol am ba welliannau ac, yn annerbyniol, arweiniodd hyn at gyngor anghywir ac o ansawdd gwael i'r Gweinidog. Yn ein barn ni, dylai'r contract gyda Pinewood fod wedi nodi'n glir ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r gwaith sy'n ofynnol, gan alluogi trafodaeth o'r cychwyn cyntaf ar ddarpariaeth ariannol resymol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwnnw.

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 161

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 166

I grynhoi, ymddengys nad oedd dull Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaethau digonol yn weinyddol i sicrhau bod y contract yn ddigon eglur, a allai fod wedi sicrhau gwerth llawer gwell am arian i'r trethdalwr.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymhell bod yr holl drafodaethau yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cymru a busnes y sector preifat yn cynnwys asesiad trwyadl o gyfrifoldebau pob ochr ac y nodir y rhain yn benodol ym mhob contract.

## 8. Adeilad rhestredig

**88.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, “fel rhan o’r broses o brynu’r safle, prynodd Llywodraeth Cymru hefyd ffermdy rhestredig Gradd II adfeiliedig ger y prif adeilad. Wrth brynu’r ffermdy, daeth Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth statudol i adnewyddu’r adeilad am gost amcangyfrifedig o £360,000 (gan gynnwys TAW). Rhagwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ôl ei adnewyddu, y gallai’r ffermdy fod yn ased gwerthfawr y gellid ei brydlesu neu ei werthu, naill ai gyda’r prif adeilad neu ar wahân.<sup>76</sup>

**89.** Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, nodwyd nad oedd y ffermdy yn hanfodol i weithrediad y stiwdio o safbwynt Llywodraeth Cymru. Roedd y gwerthwr ond yn barod i werthu’r ddau ased ar yr un pryd. Ond efallai’n bwysicach ar y pryd, rhagwelodd Pinewood y gallai ddefnyddio’r eiddo hwnnw. Felly, roedd Pinewood o’r farn bod cyfle i ystyried defnyddio’r tŷ, naill ai fel prop ar gyfer cynyrchiadau yn y dyfodol, a/neu i gartrefu criw a/neu actorion sy’n gweithio ar y safle. Teimlai Pinewood y gallai hyblygrwydd yr eiddo fod o gymorth i’w cynllun busnes, ond nid oedd cynllun uniongyrchol i’w ddefnyddio.<sup>77</sup>

**90.** Cyn belled ag y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, nid oes angen trwsio’r adeilad, ond mae’n bosibl y gallai’r awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol iddi wneud hynny rywbryd yn y dyfodol.<sup>78</sup>

**91.** Hyd nes bod tenant ar y safle eisiau defnyddio’r cyfleuster hwnnw, byddai Llywodraeth Cymru yn ei adael fel y mae. Os, ar ryw adeg, y daeth yn ofynnol inni drwsio’r adeilad, byddem yn gorfod edrych ar yr opsiynau sydd ar gael naill ai i’w werthu ar wahân neu ei gynnwys fel rhan o ased cynyddol sydd ar gael i’r tenant.<sup>79</sup>

**92.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor hwn, nododd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

“Nid yw’r costau adnewyddu o £360,000 wedi cael eu hail-werthuso ers prynu’r adeilad yn 2014. Nid oes gan swyddogion amcangyfrif o werth gwerthu’r adeilad ar ôl gwneud y gwaith adnewyddu. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio’r adeilad ar unwaith. Fodd bynnag, o

<sup>76</sup> Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, paragraff 1.21

<sup>77</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, [tystiolaeth ysgrifenedig](#), (24 Gorffennaf 2018)

<sup>78</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, paragraff 144

<sup>79</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, paragraff 154

adnewyddu'r adeilad, gallai ddod yn ased gwerthfawr y gellid ei brydlesu neu ei werthu, naill ai gyda neu ar wahân i'r prif adeilad.”<sup>80</sup>

- 93.** Dywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ei fod yn siomedig bod y Gweinidog yn ei dystiolaeth wedi datgelu y bydd Llywodraeth Cymru ond yn gweithio ar y ffermdy os bydd yr awdurdod cynllunio lleol neu Cadw yn gwneud hynny'n ofynnol.<sup>81</sup>
- 94.** Holwyd a fyddai cyflwr y ffermdy yn dirywio ymhellach heb waith atgyweirio ac adnewyddu ar unwaith ac felly y byddai'r bil terfynol sy'n gysylltiedig â gwaredu'r eiddo yn cynyddu. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod yr adeilad yn cael ei gynnal o ran ei gadw'n ddiogel.
- 95.** Gwnaethom fynegi pryderon ynghylch sut y gellid defnyddio'r adeilad ar wahân i fod yn set cyfnod, neu o bosibl yn llety i dechnegwyr tra maent yn gweithio ar safle Pinewood. Nodwyd, o ystyried bod yr adeilad yng nghanol ystâd ddiwydiannol heb unrhyw gyfleustodau ac yn gymharol ynysig, prin yw'r tebygrwydd o allu ei werthu.
- 96.** Mewn tystiolaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r costau penodol sydd wedi codi hyd yma ar gyfer cynnal yr adeilad yn £642 gan gynnwys TAW. Mae hyn yn ymwneud â chadw'r adeilad yn ddiogel. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd yn cymryd tri mis i gynnal asesiad llawn o'r eiddo i fesur costau ac amserlenni gwaith ar gyfer y gwaith adnewyddu arfaethedig. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhannu canlyniad yr asesiad hwn gyda'r Pwyllgor.<sup>82</sup>

## Casgliadau

Roeddem yn synnu o glywed nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw ofyniad i drwsio'r eiddo rhestredig Gradd II a brynodd fel rhan o'r safle yng Ngwynllŵg. Rydym o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn naïf yn meddwl mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fyddai hyn ac rydym yn siomedig nad oes unrhyw fwriad i weithio ar yr eiddo oni bai bod yr awdurdod lleol neu Cadw yn gofyn iddi wneud hynny.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gwerthuso'r asedau a'r rhwymedigaethau yr oedd yn ymrwymo iddynt fel rhan o'r broses o brynu'r safle yng Ngwynllŵg, gan gofio bod hyn yn cynnwys adeilad rhestredig Gradd II a'r

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-29-18 P3, 5 Tachwedd 2018

<sup>81</sup> Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 Papur i'w nodi 4, 3 Rhagfyr 2018

canlyniadau o wneud hynny. Rydym yn synnu nad oedd gan Lywodraeth Cymru y rhagwelediad y gallai gael ei gorfodi ar ryw adeg i ymgymryd â gwaith ar yr adeilad.

Rydym o'r farn bod y methiannau hyn yn destun pryder arbennig o gofio cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros oruchwyllo Cadw; nid yw'r rhain yn weithredoedd perchennog enghreifftiol o adeilad rhestredig.

Nodwn y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r asesiad o'r adeilad yn fuan. Felly, byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach maes o law.



## 9. Tryloywder

**97.** Yn ei lythyr atom, dywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

“the Welsh Government has refused on a number of occasions, following questions from individual Assembly Members, to disclose details of its relationship with Pinewood or to respond on the relationship and in particular its measurable benefits, citing commercial sensitivity. However, the WAO’s report – which has been agreed by both the Welsh Government and Pinewood – only omits the value of the management fee that the Welsh Government is currently paying Pinewood. In the Committee’s view, there was a strong public interest in disclosing as much detail of the relationship as possible.

While we accept that commercial sensitivity is important, the fact that both the Welsh Government and Pinewood now accept that much of what was previously considered confidential can now be released, seems to demonstrate that greater efforts toward transparency should have been made earlier. The Committee has considerable concerns that, despite requests for information from various Assembly Members had it not been for the WAO report, this information would still not be in the public domain, and Assembly Members and the Welsh public would still be in the dark about the full nature of this relationship.”<sup>83</sup>

**98.** Yn achlysurol, mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi dod ar draws achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod datgelu gwybodaeth ariannol i’r Pwyllgor, gan nodi “cyfrinachedd masnachol” - yn fwyaf diweddar roedd hyn yn ymwneud â threfniant ffi gwarantu Aston Martin. Yn achos cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Studios Pinewood Wales, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwybodaeth ariannol benodol yn ei adroddiad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi’i darparu’n gyhoeddus o’r blaen ar sail cyfrinachedd masnachol.

**99.** Cafodd y datgeliadau ariannol ychwanegol hyn eu trafod a’u cytuno rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Pinewood cyn cyhoeddi’r adroddiad archwilio. Fodd bynnag, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi golygu un ffigur yn yr adroddiad (gweler paragraff 3.13) - gwerth y ffi reoli flynyddol sy’n daladwy i Pinewood. Wrth wneud hynny, derbyniodd ddadl Pinewood (fel yr eglurir yn nhroednodyn 26 ar dudalen 36 yr adroddiad) y “byddai rhoi’r wybodaeth hon yn y parth cyhoeddus yn

<sup>83</sup> Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, [tystiolaeth ysgrifenedig](#), (24 Gorffennaf 2018)

debygol o wneud niwed sylweddol i fuddiannau masnachol Pinewood drwy roi mantais annheg i'w gwsmeriaid, i'w gystadleuwyr ac i'w gyflenwyr wrth negodi prisiau yn y dyfodol”.

**100.** Cawn gyfle i drafod y pwnc hwn yn fanylach â Llywodraeth Cymru pan fyddwn yn ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau (cyhoeddwyd Tachwedd 2018). Fodd bynnag, rhoddodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Pinewood gyfle cychwynnol inni drafod y pwnc hwn, ac yn benodol a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno'n rhy hawdd i honiadau o “gyfrinachedd masnachol” a wneir gan gwmnïau y mae'n darparu cymorth ariannol iddynt.

**101.** Roedd yn ddiddorol bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu cytuno â Pinewood bod yr holl wybodaeth ariannol a gafodd ei hatal yn flaenorol i Aelodau'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru ar sail “cyfrinachedd masnachol”, gyda dim ond un eithriad, yn gallu cael ei chyhoeddi heb ei golygu yn ei adroddiad archwilio.

**102.** Felly, roeddem yn cwestiynu a oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwysau ar Pinewood i gydsynio i ddatgelu ei becyn cymorth ariannol, i ddarparu tryloywder a gwaith craffu gwell ar y defnydd o arian cyhoeddus.

**103.** Cawsom wybod y cafwyd nifer o sgysiau gyda Pinewood ynghylch rhyddhau gwybodaeth. Gofynnwyd am eglurhad p'un a oedd yn achos lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn am wybodaeth a bod Pinewood wedi cytuno i'w rhyddhau, a phryd y gofynnodd Llywodraeth Cymru ei fod wedi gwrthod. Eglurodd Mr Slade:

“I don't know in terms, but I suspect a conversation was had—. When we deal with any company, we explain that we are Government and there are certain requirements on us in terms of releasing information. Whether the company said, ‘We're terribly sorry, we can't do that. It's commercial in confidence’, or whether, from the conversation that the team had with Pinewood, that's what they concluded was the most sensible way to proceed, I don't know, and that's one of the questions that I've asked the team.”<sup>84</sup>

**104.** Ychwanegodd:

“There were general provisions in respect of commercial confidentiality, although we did push the company quite hard on the arrangements in

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 206

respect of specific deals. That was one of the sector issues that came to the fore in coming to the end of the collaboration agreement and the move to a different approach.”<sup>85</sup>

**105.** Roeddem yn awyddus i fynd ar drywydd y mater hwn ymhellach ac archwilio polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfrinachedd masnachol a ph’un ai rhagdybiaeth Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi ym mhob achos hyd nes bod y cwmni yn codi mater o ran cyfrinachedd, er enghraifft. Rydym yn ymwybodol bod rhagdybiaeth gyffredinol, o ystyried ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a nifer o ddarpariaethau eraill mewn perthynas â diogelu data a rhyddid gwybodaeth, y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cymaint o wybodaeth â phosibl. Fodd bynnag, roeddem am bennu a oes rhagdybiaeth gyffredinol y cyhoeddir popeth hyd nes y bydd y trydydd parti yn mynegi pryderon ynghylch enghreifftiau penodol, neu a oes rhagdybiaeth nad yw unrhyw beth sydd â symiau ynghlwm â hwy ac unrhyw beth mewn perthynas â busnes yn cael ei ryddhau.

**106.** Mynegodd Mr Slade fod ymagwedd ofalus gan Lywodraeth Cymru i osgoi sefyllfa o niweidio buddiannau cwmnïau a’r angen i fod yn ymwybodol o’r hyn y mae pobl eraill yn ei wneud mewn rhannau eraill o’r DU a thu hwnt. Ychwanegodd fod hyn am nad oedd cwmnïau’n teimlo y gallant weithredu yng Nghymru oherwydd y bydd gormod o’r hyn y byddant yn bwriadu ei drafod yn cael ei ryddhau.<sup>86</sup> Ychwanegodd Mr Slade:

“But I do think that, where public money is being spent, we should be as open as we possibly can, particularly in respect of grants. There may be a slightly different arrangement in respect of commercial dealings, where Welsh Government is working alongside a particular party, and it may sometimes be a question of timing, so maybe we can’t release information now, but we might be able to at a point in the future. I think we should be more upfront, probably, in our dealings with companies about that, and when might be the point when we can release more information.”<sup>87</sup>

**107.** Cyfeiriodd Mr Slade yn ôl at y gwersi a ddysgwyd o brofiadau Llywodraeth Cymru â Pinewood, gan gynnwys un profiad cyffredinol ynghylch tryloywder a bod yn gliriach â phawb ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Ychwanegodd, o dan y Cynllun Gweithredu Economaidd newydd, lle mae’n

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 208

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 212

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 212

bwriadu clymu cwmnïau i set fwy o enillion am yr arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi, o ran ymddygiad a'r hyn a gynigir. Caiff hyn ei ddwyn ynghyd â Chronfa Dyfodol yr Economi ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau.

**108.** Wrth symud ymlaen, bydd hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar gwestiynau ehangach o ran yr hyn y mae angen iddi ei ddweud wrth gwmnïau o'r cychwyn cyntaf ac y bydd y wybodaeth y gall ei derbyn yn rhwydd yn cael ei gwneud yn gyhoeddus yn erbyn y wybodaeth a fydd yn rhwystro ei gallu i weithredu yn y farchnad, ac yn wir, gallu Llywodraeth Cymru ei hun i weithredu yn y farchnad.

**109.** Yn olaf, holwyd a oedd unrhyw reswm pam na ddylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad yn y dyfodol wrth wneud cynigion o gymorth ar gyfer busnesau y bydd gwybodaeth ariannol allweddol yn cael ei rhoi yn y parth cyhoeddus cyn gynted ag y bydd cytundeb wedi'i gwblhau, oni bai bod achos clir a chymhellol yn bodoli i beidio â gwneud hynny.

**110.** Derbyniodd Mr Slade yr her gan ddweud:

“...without prejudicing what we might want to do in the future or what comes out of the conversations in respect of the business finance review, I think we do need to look at means of allowing you to do your job most effectively while protecting positions of companies or the Welsh Government. For example, I don't know: the opportunity to discuss things privately with you as a committee so that you can see what's going on, but that isn't necessarily stuff that is shared more widely. But I would want to consider that more fully, I think.”<sup>88</sup>

## Casgliadau

Mae atal gwybodaeth ariannol ar sail cyfrinachedd masnachol wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor hwn ers tro. Mae ein hymchwiliad o berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood wedi ein galluogi i edrych ar y mater a byddwn yn parhau i edrych ar hyn yn fanylach fel rhan o'n hymchwiliad i gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau.

Yn achos Pinewood, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn nad oedd cynnwys y cytundeb cydweithredol yn dryloyw ac mae hyn yn golygu bod angen trafodaeth ehangach ar ba wybodaeth y gellir ei chyhoeddi i gyflawni awydd dilys am wybodaeth am sut y gwariwyd arian cyhoeddus. Rydym yn cydnabod yr angen i

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodiojn, 5 Tachwedd 2018, paragraff 212

wneud hyn mewn ffordd gytbwys i sicrhau tryloywder heb rwystro darpar fuddsoddwyr.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a roddwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried y mater o rannu gwybodaeth ariannol gyda ni mewn modd adeiladol. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiad diweddar a roddwyd inni gan yr Ysgrifennydd Parhaol i archwilio'r posibilrwydd y bydd swyddogion arweiniol yn briffio aelodau'r Pwyllgor ar drefniadau gwarant Llywodraeth Cymru mewn sesiwn breifat.<sup>89</sup> Mae hyn gyda'r bwriad o roi mwy o eglurder i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch y symiau dan sylw a sut y cyfrifir am y gwarantau hyn.

Byddwn yn ceisio diweddariad ar drafodaethau Llywodraeth Cymru fel rhan o'n gwaith pellach yn y maes hwn.

---

<sup>89</sup> Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 14 Ionawr 2019

---